Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Arts Wales

CERDDORFA CHWYTH Genedlaethol Ieuenctid Cymru

National Youth WIND ORCHESTRA of Wales

CLYWELIADAU 2008 AUDITIONS

Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
National Youth Arts Wales

TŶ CERDD
MUSIC CENTRE WALES

FFEDERASIWN CERDDORIAETH AMATEUR CYMRU

WJEC CBAC

CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY



Dinas Lwcsembwrg
Luxembourg City

AM Y NYWOW

Cerddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuenctid Cymru yw'r mwyaf newydd o blith y grwpiau "Cenedlaethol" ac fe'i ffurfiwyd gan Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru yn 2002 dan gyfarwyddyd cerddorol Frank Renton. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu John Greaves, Nigel Boddice a Tim Reynish yn arwain y gerddorfa hon.

Mae repertoire y Gerddorfa yn archwilio amrywiaeth helaeth o arddulliau cerddorol, ac mae'n cynnwys cerddoriaeth sydd wedi'i hysgrifennu'n benodol ar gyfer y *genre* yn ogystal â thrawsgrifiadau. Comisiynwyd cerddoriaeth newydd hefyd gan y Gerddorfa, ac ymhlith y darnau hyn mae *Legends of the Bear* gan Gareth Wood a *Farewell* o waith Adam Gorb. Consierto i'r utgorn gan y cyfansoddwr o Ogledd Cymru, Gareth Glyn, yw'r darn comisiwn am eleni a bydd yn cael ei berfformio gan Philippe Schartz.

École de Musique Echternach

MARCO PÜTZ (Cyfarwyddwr Cerdd)

Bu Marco Pütz yn astudio'r sacsoffon, arwain a chyfansoddi yn y *Conservatoire* yn Esch/Alzette, Luxembourg, ac enillodd nifer o wobrau cyn parhau â'i astudiaethau yng Ngholegau Cerdd Brwsel a Liege.
Mae'n athro sacsoffon, cerddoriaeth siambr ac offeryniaeth yn y *Conservatoire* yn Luxembourg ac mae'n gyn aelod o'r *Quatuor de Saxophones du Luxembourg*. Bu'n chwaraewr sacsoffon gyda Cherddorfa Ffilharmonig Luxembourg o 1981 hyd 2006.

Mae Marco wedi cyfansoddi'n helaeth ar gyfer cerddorfeydd chwyth; perfformiwyd ei weithiau ym mhob cwr o'r byd ac maent wedi ymddangos hefyd ar dros 35 o Gryno Ddisgiau.

ABOUT THE NYWOW

The National Youth Wind Orchestra of Wales is the newest of the "Nationals" and was formed by the Welsh Amateur Music Federation in 2002 under the musical direction of Frank Renton. In the past few years its conductors have included John Greaves, Nigel Boddice and Tim Reynish.

The Orchestra's repertoire explores a wide range of musical styles, and includes both music written specifically for the genre and transcriptions. The Orchestra has also commissioned new music, including Gareth Wood's *Legends of the Bear* and Adam Gorb's *Farewell.* This year's commission is a trumpet concerto from North Wales composer, Gareth Glyn which will be performed by Philippe Schartz.

MARCO PÜTZ (Music Director)

Marco Pütz studied saxophone, conducting and composition at the Conservatory of Esch/Alzette, Luxembourg, winning a number of major prizes before continuing his studies at the Conservatories of Brussels and Liege.

He is professor of saxophone, chamber music and orchestration at the Luxembourg Conservatoire and is a former member of the *Quatuor de Saxophones du Luxembourg*. He played as a saxophonist in Luxembourg Philharmonic Orchestra from 1981 to 2006.

Marco has written extensively for wind orchestras and his works have been performed throughout the world as well as being featured on over 35 CDs.

PHILIPPE SCHARTZ (Trumpet)

Philippe Schartz, Principal Trumpet of the BBC National Orchestra of Wales, has developed a highly successful career as an orchestral and chamber musician as well as a soloist. Born in Luxembourg, his enjoyment of the trumpet began when he listened to his father play in the village wind band. He was taught the trumpet by Dino Tomba before studying with David Mason at he Royal College of Music in London, and later at the Eastman School in Rochester, New York.

Philippe's solo career has included recital and concerto appearances and radio and TV broadcasts throughout Europe. He has recorded four solo CDs, his most recent, entitled *De Lux Trumpet,* was released to great acclaim in October 2007.

Philippe is on the staff of the Royal Welsh College of Music & Drama, and has given masterclasses and educational workshops at venues throughout the world, including the Royal College of Music, Northwestern University of Chicago and Queens University, Belfast.

LUXEMBOURG 2009

2009 will see the NYWOW undertake its first foreign tour when it visits Luxembourg in April. There are many parallels that can be drawn between Wales and Luxembourg as both are small countries built on the wealth of coal and iron industries, have a multilingual culture (the people of Luxembourg speak at least 3 languages!) and a strong banding tradition (in the case of Luxembourg – wind bands).

The Orchestra will meet for rehearsals and stay overnight on Sunday 5th April at the Wales Millennium Centre, prior to an early morning departure the next day, It will travel by coach and ferry to Luxembourg and arrive at Echternach Youth Hostel, its base for the week, on Monday evening. The first two complete days in the country will be spent mainly in full and sectional rehearsals at Echternach Music School. During this time the Orchestra will be coached by a team of professional musicians supplied by the *Fédération Nationale de Musique du Grand-Duché de Luxembourg* (UGDA) who have offered their generous support and advice to the tour. The NYWOW will perform two concerts, probably in Steinfort and at *Trifolion*, Echternach's newly built concert hall.

During the week NYWOW members will have plenty of time to relax and to experience the cultural life of the country. There will be opportunities for sightseeing, and excursions are planned to Luxembourg City and the medieval market town of Clervaux.

PHILIPPE SCHARTZ (Utgorn)

Mae Philippe Schartz, Prif Utganwr Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, wedi datblygu gyrfa lwyddiannus iawn fel cerddor cerddorfaol a siambr yn ogystal ag unawdydd. Fe'i ganwyd yn Luxembourg a dechreuodd fwynhau'r utgorn wrth wrando ar ei dad yn chwarae ym mand chwyth y pentref. Cafodd wersi ar yr utgorn gan Dino Tomba cyn astudio gyda David Mason yn y Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain, ac yn ddiweddarach yn Ysgol Eastman, Rochester, Efrog Newydd.

Mae gyrfa unawdol Philippe wedi cynnwys datganiadau a pherfformiadau consierto yn ogystal â darllediadau radio a theledu ar draws Ewrop. Mae e wedi recordio pedwar Cryno Ddisg unawdol, a chafodd y diweddaraf ohonynt, sy'n dwyn y teitl De Lux Trumpet, dderbyniad gwresog iawn adeg ei ryddhau ym mis Hydref 2007.

Mae Philippe yn aelod o staff Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, a bu'n cynnal dosbarthiadau meistri a gweithdai addysgol mewn lleoliadau ym mhob cwr o'r byd, ac yn eu plith mae'r Coleg Cerdd Brenhinol, *Northwestern University of Chicago* a Phrifysgol Queens, Belfast.

LWCSEMBWRG 2009

Yn 2009, bydd Cerddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuenctid Cymru yn mynd ar ei thaith dramor gyntaf pan fydd yn ymweld â Luxembourg, a hynny ym mis Ebrill. Mae cryn debygrwydd rhwng Cymru a Luxembourg gan fod y ddwy yn wledydd bychain sydd wedi eu hadeiladu ar gyfoeth y diwydiannau glo a haearn; mae ganddynt ddiwylliant amlieithog (mae trigolion Luxembourg yn siarad o leiaf 3 iaith!) yn ogystal â thraddodiad cadarn ym myd bandio (bandiau chwyth – yn achos Luxembourg).

Bydd y Gerddorfa yn cyfarfod i ymarfer yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ac yn aros yno dros nos ar ddydd Sul 5ed Ebrill, cyn codi pac ben bore drannoeth. Bydd yr aelodau yn teithio ar fws a fferi i Luxembourg ac yn cyrraedd Hostel Ieuenctid Echternach, eu canolfan am yr wythnos, ar y nos Lun. Bydd y ddau ddiwrnod llawn cyntaf yn y wlad yn cael eu treulio'n bennaf mewn ymarferion llawn ac adrannol yn Ysgol Gerdd Esternach. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y Gerddorfa yn cael ei hyfforddi gan dîm o gerddorion proffesiynol sy'n cael eu darparu gan y *Fédération Nationale de Musique du Grand-Duché de Luxembourg* (UGDA) sy'n garedig iawn wedi cynnig eu cefnogaeth a'u cyngor adeg y daith gyngerdd. Bydd Cerddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuenctid Cymru yn cynnal dau gyngerdd, yn Steinfort, mae'n debyg, ac yn Trifolion, neuadd gyngerdd newydd Echternach.

Yn ystod yr wythnos, caiff aelodau Cerddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuenctid Cymru ddigon o amser i ymlacio ac i gael blas ar fywyd diwylliannol y wlad. Ceir cyfleoedd i ymweld â chyrchfannau i dwristiaid, ac mae gwibdeithiau wedi eu trefnu i Ddinas Luxembourg a thref farchnad ganoloesol Clervaux.

2009 AMSERLEN (DRAFFT)

Sul 5 Ebrill	Ymarfer yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd
Llun 6 Ebrill	Teithio to Lwcsmebwrg
Mawrth 7 Ebrill	Ymarferion; amser rhydd yn Echternach
Mercher 8 Ebrill	Ymarferion; amser rhydd yn Echternach
Iau 9 Ebrill	Ymarferion; ymweld â Clervaux
Gwener 10 Ebrill	Ymarferion; ymweld â Vianden
Sadwrn 11 Ebrill	Ymeld â Dinas Lwcsembwrg; Cyngerdd yn Steinfort
Sul 12 Ebrill	Cyngerdd yn Trifolion, Echternach
Llun 13 Ebrill	Dychwelyd i Gaerdydd

REPERTOIRE

Bydd y rhaglen yn cynnwys cerddoriaeth gan gyfansoddwyr o Gymru a Gwlad Luxembourg ynghyd â pherfformiad cyntaf o waith comisiwn newydd – consierto gan Gareth Glyn. Mae'n bur debyg y bydd y rhaglen yn cynnwys y canlynol:

Gareth Glyn	Fanffar Dolbadarn
Roland Wiltgen	Trioled Schmeltz
Gareth Glyn	Consierto Utgorn (premiere)
Adam Gorb	Awayday
Gareth Wood	Legends of the Bear
Marco Putz	Sinfonietta

Echternach

2009 COURSE (DRAFT) ITINERARY

Sun 5 Apr	Rehearse at Wales Millennium Centre, Cardiff
Mon 6 Apr	Travel to Luxembourg
Tue 7 Apr	Rehearsals; free time in Echternach
Wed 8 Apr	Rehearsals; free time in Echternach
Thu 9 Apr	Rehearsals; Sightseeing in Clervaux
Fri 10 Apr	Rehearsals; Sightseeing in Vianden
Sat 11 Apr	Visit Luxembourg City; Concert in Steinfort
Sun 12 Apr	Concert in Trifolion, Echternach
Mon 13 Apr	Return to Cardiff

REPERTOIRE

The programme will consist of music written by Welsh and Luxembourgish composers and include the first performance of a newly commissioned concerto from the pen of Gareth Glyn. The probable programme will include:

Gareth Glyn	Dolbadarn Millennium Fanfare
Roland Wiltgen	Schmeltz Trilogy
Gareth Glyn	Trumpet Concerto (premiere)
Adam Gorb	Awayday
Gareth Wood	Legends of the Bear
Marco Putz	Sinfonietta

Hostel Ieuenctid Echternach
Echternach Youth Hostel

COST

Cost y cwrs a thaith yw £450.00, sydd i'w dalu mewn dau randal ym mis Rhagfyr 2008, Chwefror a Mawrth 2009.

CYMORTH ARIANNOL

Rydym yn awyddus iawn i sicrhau na fydd rhesymau ariannol yn atal unrhyw un rhag gwneud cais am Cerddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuenctid Cymru. Ymdrinnir yn gwbl gyfrinachol ag unrhyw geisiadau am gymorth ariannol.

GOFYNION

- Derbynnir ymgeiswyr i'w clyweld ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan Bennaeth Gwasanaeth Cerdd eu sir (neu ei g/chynrychiolydd neu gywerth) a disgwylir iddynt gefnogi gweithgaredd cerddorol yn yr ysgol/coleg ac ar lefel sirol. Os nad oes gweithgaredd sirol, gall y Pennaeth Adran yn yr ysgol neu goleg gefnogi ceisiadau i ddechrau.
- Dylai ymgeiswyr fel arfer fod o safon Gradd VIII er nad oes angen iddynt fod wedi sefyll yr arholiad.
- Dylai ymgeiswyr fod rhwng 12 - 21 mlwydd oed ar 31ain Awst 2008 (neu 22 os ydynt mewn addysg lawn-amser o hyd).
- Rhaid i chwaraewyr fod ar gael ar gyfer holl ddyddiadau'r cwrs, taith a'r cyngherddau. Gwnewch yn siŵr y byddwch ar gael cyn ymgeisio.

Y CLYWELIAD

Yn ystod y clyweliad byr gofynnir i chi chwarae dau ddarn cyferbyniol o'ch dewis eich hun (heb gyfeiliant), yn ogystal â graddfeydd, arpeggios a darllen ar yr olwg gyntaf. Bydd y rhai hynny sydd hefyd yn cynnig offeryn dyblu (e.e. piccolo, cor anglais neu basŵn dwbl) yn cael eu gwahodd i berfformio darn byr ar yr offeryn hwn.

I gael manylion llawn am drefn y clyweliad ynghyd ag awgrymiadau ar sut i baratoi yn llawn, dilynwch y cysylltau ar ein gwefan (www.nyaw.co.uk) os gwelwch yn dda.

Cynhelir y clyweliadau ym mis Tachwedd trwy Gymru yn y canolfannau ac ar y dyddiadau a roddir isod. Dylech nodi ar y ffurflen gais amgaeëdig pa ganolfan yr hoffech ei mynychu. Byddwn yn cysylltu â chi gyda manylion eich apwyntiad ym mis Hydref.

MAE'R CLYWELIADAU'N RHAD AC AM DDIM ond mae gofyn i chi anfon siec, yn daladwy i FfCAC (CCHGIC), am £15.00 fel blaendal. Dychwelir y siec hwn i chi os byddwch yn dod i'ch apwyntiad fel a gytunwyd. Bydd y tâl hwn yn cael ei fforffedu os nad ydych yn dod i'ch apwyntiad.

DYDDIADAU A LLEOLIADAU CLYWELIADAU

Llun 10 Tach	Gogledd Cymru
Mawrth 11 Tach	Caerfyrddin
Mawrth 11 Tach	Caerdydd (offerynnau taro yn unig)
Llun 17 Tach	Caerdydd (chwythbrennau a phres yn unig)
Sadwrn 21 Tach	Casnewydd (chwythbrennau a phres yn unig)

Seilir y trefniadau hyn ar wasgariad daearyddol nodweddiadol ymgeiswyr a gellir eu newid os bydd llai na 12 ymgeisydd i bob lleoliad. Yn yr un modd, gellir ychwanegu dyddiad/lleoliad arall os bydd digon o alw am hynny.

SUT I YMGEISIO

Llenwch y ffurflen gais sydd ynghlwm a'i hanfon gyda'ch blaendal i'r cyfeiriad isod cyn 30ain Medi 2008.

Cerddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuenctid Cymru, Tŷ Cerdd, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd. CF10 5AL

Bydd amser eich clyweliad yn cael ei anfon atoch tua diwedd mis Hydref.

GWYBODAETH BELLACH

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am CChGIC neu unrhyw un ensemble cerdd arall sy'n rhan o Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ar 029 2063 5649/50 neu nywow@tycerdd.info

COST

The cost of the course and tour is £450.00, due in three instalments to be paid in December 2008, February and March 2009.

FINANCIAL ASSISTANCE

We are keen to ensure that no-one is deterred from applying for the National Youth Wind Orchestra of Wales for financial reasons. All applications for assistance are treated in strictest confidence.

REQUIREMENTS

- Candidates are accepted for audition on the approval of their county Head of Music Service (or his/her authorised representative or equivalent) and are expected to support music activity at school/ college and county level. Where county activity does not exist, the Head of Department in school or college may initially support applications.
- Candidates should normally be of around Grade VIII standard though they do not need to have to have taken the exam.
- Candidates should be between 12 and 21 years old on 31st August 2008 (or 22 if still in full-time education).
- Players must be available for all course, tour and concert dates. Please check your availability before applying.

THE AUDITION

During the short audition you will be asked to perform 2 contrasting pieces of your own choice (unaccompanied), a selection of scales and arpeggios and sight-reading. Those who are also offering a doubling instrument (eg. piccolo, cor anglais or contrabassoon) will be asked to perform a short piece on this instrument.

For full details of the audition procedure along with tips on how to prepare fully, please follow the links on our website (www.nyaw.co.uk).

Auditions will take place in November throughout Wales at the centres and dates given below. You should indicate on the enclosed application form which centre you would like to attend. We will contact you with details of your appointment in October.

AUDITIONS ARE FREE OF CHARGE but you are required to send a cheque, made payable to WAMF (NYWOW), for £15.00 as a deposit. The cheque will be returned to you if you attend your appointment at the agreed time. Those failing to appear for the auditions will forfeit the payment.

AUDITION DATES & VENUES

Mon 10 Nov	North Wales
Tue 11 Nov	Carmarthen
Tue 11 Nov	Cardiff (Percussion only)
Mon 17 Nov	Cardiff (wind & brass only)
Sat 21 Nov	Newport (wind & brass only)

These arrangements are based on the typical geographical spread of candidates and are subject to change if there are fewer than 12 candidates per venue. Equally, an additional date/venue may be added if there is sufficient demand.

HOW TO APPLY

Please complete the attached application form and send with your deposit to the address below before 30th September 2008.

National Youth Wind Orchestra of Wales, Tŷ Cerdd, Wales Millennium Centre, Bute Place, Cardiff. CF10 5AL

You will be notified of your audition time towards the end of October.

FURTHER INFORMATION

You can obtain further information about the NYWOW or any of the other National Youth Arts Wales music ensembles from 029 2063 5649/50 or nywow@tycerdd.info

CAIS I YMUNO Â CChGIC
APPLICATION TO JOIN NYWOW 2009

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chadw ar gronfa ddata Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. O dro i dro efallai y byddwn am drosglwyddo eich manylion cysylltu i fudiadau celfyddydau eraill sydd wedi'u sgrinio'n ofalus. Os nad ydych am i ni wneud hyn, ticiwch y blwch hwn: ☐

The information will be stored on the National Youth Arts Wales database. From time to time we may wish to pass your contact details to other, carefully screened, arts organisations. If you do not wish us to do this, please tick this box: ☐

PRINTIWCH Y WYBODAETH I GYD MEWN PRIFLYTHRENNAU — PLEASE PRINT ALL INFORMATION IN BLOCK CAPITALS

OFFERYN(AU)
INSTRUMENT(S) _____

GRADD
GRADE _____

DYDDIAD A BASIWYD
DATE PASSED _____

yr hoffech gael eich clyweld arno/arnynt on which you wish to be auditioned

CYFENW
SURNAME _____

ENW(AU) CYNTAF
FIRST NAME(S) _____

DYDDIAD GENI
DATE OF BIRTH _____

OEDRAN AR
AGE ON 31.08.09 _____ bl. yr. _____ m.

CYFEIRIAD CARTREF
HOME ADDRESS _____

TREF/DINAS
TOWN/CITY _____

CÔD POST
POST CODE _____

AWDURDOD LLEOL
LOCAL AUTHORITY _____

RHIF FFÔN CARTREF
HOME PHONE NUMBER (_____) _____

RHIF FFÔN SYMUDOL
MOBILE NUMBER _____

CYFEIRIAD EBOST
EMAIL ADDRESS _____

YSGOL/COLEG
SCHOOL/COLLEGE _____

GWASANAETH CERDD
MUSIC SERVICE _____

CYFEIRIAD YN YSTOD Y TYMOR
TERM-TIME ADDRESS _____

(os yw'n wahanol i'r uchod) (if different from above)

Gyda pha ensemble offerynnol rydych chi wedi/ydych chi'n perfformio?
With which instrumental ensembles have you performed/do you perform?

YSGOL
SCHOOL _____

SIR
COUNTY _____

CENEDLAETHOL
NATIONAL _____

ARALL
OTHER _____

Profiad offerynnol arall (gwobrau cerdd ayb.)
Other instrumental experience (music prizes/awards etc.)

_____

Pwy sy'n rhoi gwersi offerynnol i chi?
With whom do you have instrumental lessons? _____

Ydych chi'n chwarae offeryn arall? Nodwch.
Do you play another instrument? Please specify. _____

GRADD
GRADE _____

TROSODD
PLEASE TURN OVER

Sut wnaethoch chi glywed am CChGIC?
How did you hear about the NYWOW?

❑ athro offerynnol instrumental teacher ❑ athro cerdd yn yr ysgol school music teacher

❑ gwasanaeth cerdd y sir county music service ❑ gwefan CCIC NYAW website

Arall, nodwch Other, please state _____

❑ Hoffwn llythyrau i gyd i fod yn y Gymraeg (lle bod hi'n bosib).
❑ I would like all correspondence to be in English.

CANOLFAN GLYWELD FYDDAI ORAU GENNYCH
Ticiwch y blwch gyferbyn â'r ganolfan glyweld o'ch dewis:

PREFERRED AUDITION CENTRE
Please tick the box of your chosen audition centre:

❑ Caerdydd Cardiff ❑ Caerfyrddin Carmarthen

❑ Gogledd Cymru North Wales ❑ Casnewydd Newport

❑ Amgaeir siec am £15.00, yn daladwy i FFCAC (CChGIC) fel blaendal. Deallaf y byddaf yn fforffedu'r arian hwn os na fyddaf yn dod i'r clyweliad ar yr amser a gytunwyd.
❑ I enclose a cheque for £15.00, made payable to WAMF (NYWOW) as a deposit. I understand that I will forfeit this money if I fail to attend the audition at the agreed time.

❑ Rwy'n cadarnhau y byddaf ar gael am gwrs, taith a dyddiadau'r cyngherddau ChGIC.
❑ I confirm that I am available for all of the NYWOW course, tour and concert dates.

LLOFNOD YR YMGEISYDD
SIGNATURE OF APPLICANT _____ DYDDIAD
DATE __/__/____

*CYMERADWYIR Y CAIS GAN BENNAETH CERDD YR YSGOL/COLEG
*APPLICATION ENDORSED BY SCHOOL/COLLEGE HEAD OF MUSIC

LLOFNOD SIGNATURE _____ ANGHENRHEIDIOL ESSENTIAL DYDDIAD
DATE __/__/____

*CYMERADWYIR Y CAIS GAN BENNAETH GWASANAETH CERDD Y SIR / CYNRYCHIOLYDD AG AWDURDOD
*APPLICATION ENDORSED BY COUNTY HEAD OF MUSIC SERVICE / AUTHORISED REPRESENTATIVE

LLOFNOD SIGNATURE _____ ANGHENRHEIDIOL ESSENTIAL DYDDIAD
DATE __/__/____

* gweler y 'Gofynion' ar dudalen 4.
* see 'Requirements' on page 4.

DS Na ellir ystyried ceisiadau heb eu cymeradwyo.
NB Unendorsed applications will not be considered.

Dychwelwch y ffurflen gais wedi'i llenwi ynghyd â siec am £15.00 yn daladwy i FfCAC (CChGIC) i'r cyfeiriad isod cyn 30ain Medi 2008.

Cerddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuenctid Cymru, Tŷ Cerdd, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd. CF10 5AL

Please return the completed application form together with a cheque for £15.00 made payable to WAMF (NYWOW) to the address below before 30th September 2008.

National Youth Wind Orchestra of Wales, Tŷ Cerdd, Wales Millennium Centre, Bute Place, Cardiff. CF10 5AL

DYDDIAD CAU 30.09.08 CLOSING DATE